**Rebecca Evans AC/AM**
**Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Social Services and Public Health**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf MA P RE 5645 16

16 Aust 2016

Holl Aelodau'r Cynulliad

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod ichi fy mod wedi ysgrifennu i awdurdodau lleol er mwyn eu hysbysu ynghylch canlyniad y broses o ailgyflwyno eu Map Llwybrau Presennol.

Gwnaeth pob awdurdod lleol roi sylw dyledus i'r dogfennau canllawiau statudol ynghylch Dylunio a Chyflenwi, gan ailgyflwyno Map Llwybrau Presennol boddhaol yn unol â'u dyletswyddau o dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.

Ni wnaeth tri awdurdod lleol gyflwyno data ar gyfer yr holl aneddiadau yn eu hardal ac rydym wedi estyn y dyddiad cau ar gyfer ailgyflwyno'r Mapiau tan 5 Medi 2016. Byddaf yn cysylltu â chi ar ôl y dyddiad hwnnw i'ch hysbysu am fy mhenderfyniad ar y Mapiau Llwybrau Presennol hynny.

Ceir rhestr lawn o statws Map Llwybrau Presennol pob awdurdod lleol yn Atodiad A.

Rebecca

**Rebecca Evans AC**
Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Atodiad A

<u>Mapiau Llwybrau Presennol a ailgyflwynwyd ac a gymeradwywyd ym mis Awst 2016</u>

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Sir Fynwy
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Cyngor Sir Penfro
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Dinas a Sir Abertawe
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Cyngor Bro Morgannwg
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

<u>Mapiau Llwybrau Presennol a gymeradwywyd ym mis Ebrill 2016</u>

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Dinas Caerdydd
- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

<u>Mapiau Llwybrau Presennol i'w hailgyflwyno ym mis Medi 2016</u>

- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Sir Ynys Môn